Beth os na fyddaf yn cyflawni'r amodau?

Mae Rhybudd Amodol yn gytundeb rhyngoch chi a'r Heddlu/CPS.

Rydych CHI yn cytuno i gadw at yr Amod(au), ac mae'r HEDDLU/CPS yn cytuno i beidio â'ch cyhuddo.

Os na fyddwch yn cadw at eich ochr chi o'r cytundeb, yna fe allai'r Heddlu/CPS benderfynu eich erlyn.

Dylech nodi y gallai unrhyw gyfaddefiad a wnewch cyn y rhoddir Rhybudd Amodol, gael ei ddefnyddio yn ystod erlyniad petaech yn methu cadw at yr Amodau.

Beth os caf broblem cadw at yr Amodau?

Os bydd problem gydag unrhyw rai o'r Amodau, fe ddylech chi gysylltu ar unwaith â'r person sydd wedi'i enwi ar y ffurflen.

Os oes gennych reswm da dros beidio â gallu cadw at yr Amod(au), efallai y bydd hi'n bosib ailasesu eich sefyllfa.

Cofiwch fod gofyn am gael newid yr Amod(au) yn fater difrifol felly ddylech chi ddim gwneud hynny nes bydd popeth arall wedi methu.

Ni fydd yr Heddlu/CPS yn amrywio'r Amod(au) oni bai fod rheswm derbyniol yn eu barn nhw. Fe ddylech wneud pob ymdrech i gwblhau'r Amod(au) y cytunoch arnynt.

Beth fydd yn digwydd ar ôl i mi gwblhau'r Rhybudd Amodol?

Os byddwch yn cwblhau'r Amod(au) yn llwyddiannus, dyna ddiwedd ar y mater. Fyddwch chi DDIM yn cael eich erlyn am y trosedd.

Cofiwch: NID yw Rhybudd Amodol yn ddyfarniad troseddol, ond bydd y Rhybudd Amodol yn mynd ar eich cofnod ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu ac fe fydd yn effeithio ar y ffordd y byddwn yn delio â chi os byddwch yn mynd i drwbl eto. Mae'n bosib hefyd y bydd darpar gyflogwr yn gofyn a fu gennych Rybudd Amodol.

Os ydych chi angen i rywun egluro unrhyw beth yn y daflen hon, siaradwch â'r swyddog sy'n delio â'ch achos neu eich ymgynghorydd neu gynrychiolydd cyfreithiol cyn gwneud unrhyw benderfyniadau.

Argraffwyd gan Blackburns of Bolton, 01204 550803

Y Rhybudd AMODOL

Mae'r daflen hon yn egluro beth yw Rhybudd Amodol a phryd y gellid ei ddefnyddio

NID yw'r ffaith eich bod wedi cael y daflen hon yn golygu o anghenraid fod eich achos yn un addas nac y byddwch yn cael Rhybudd Amodol

Cofiwch: Mae hawl gan unrhyw un a gafodd ei arestio i gael cyngor cyfreithiol am ddim yng ngorsaf yr heddlu.

Y Tîm Erlyn

System Cyfiawnder Troseddol

Beth yw

RHYBUDD AMODOL?

Mae Rhybudd Amodol yn ffordd newydd o ddelio â rhai troseddau.

Fe fydd yr Heddwas sy'n delio â'ch achos yn gallu dweud wrthych am y math o droseddau sy'n dod dan y cynllun yn eich ardal chi.

Gyda Rhybudd Amodol mae troseddwr, wrth gyfaddef iddo/iddi gyflawni'r trosedd, yn derbyn rhybudd gydag amod(au).

Pa fath o Amodau allai gael eu cynnig i mi?

Mae dau fath o Amod.

Mae **AMOD AILSEFYDLU** yn ceisio eich helpu i newid eich ymddygiad fel na fyddwch yn cyflawni rhagor o droseddau. Er enghraifft, mynd i sesiynau i gael gwybodaeth a dod yn ymwybodol o effeithiau defnyddio cyffuriau.

Mae **AMOD GWNEUD IAWN** yn ceisio eich helpu i wneud iawn am y niwed rydych wedi'i achosi, un ai i unigolyn, neu i'r gymuned leol. Er enghraifft, talu am y difrod rydych wedi'i achosi.

Pam byddwn i'n derbyn Rhybudd Amodol?

Trwy dderbyn Rhybudd Amodol, gallwch gael help i roi'r gorau i droseddu cyn i bethau waethygu.

Fe fydd hefyd yn golygu y gallwch roi rhywbeth yn ôl i'r bobl sydd wedi dioddef a'r gymuned i wneud iawn am y pethau rydych wedi eu gwneud.

Os byddwch yn derbyn Rhybudd Amodol, ac yn cadw at yr amodau, ni fydd raid i chi fynd i'r llys a fyddwch chi ddim yn cael eich erlyn.

Beth fydd yn digwydd os byddaf yn penderfynu derbyn Rhybudd Amodol?

Unwaith y byddwch wedi cyfaddef i'r trosedd a bod yr Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) wedi penderfynu eich bod yn addas, fe fyddan nhw'n egluro'r holl broses a'r Amodau i chi.

Byddwch yn cael ffurflen Rhybudd Amodol. Bydd y ffurflen hon yn rhoi:

- Manylion y trosedd(au)
- Yr Amod(au) y mae'n rhaid i chi gadw atynt
- Manylion sut i gwblhau'r Amod(au) ac unrhyw ddyddiadau perthnasol
- Manylion cysylltu, rhag ofn y cewch chi broblemau cadw at yr Amod(au)

Cyn y gallwch gael Rhybudd Amodol, bydd gofyn i chi gyfaddef mai chi gyflawnodd y trosedd ac arwyddo'r ffurflen i ddangos eich bod yn cytuno â'r Amod(au) a'ch bod yn deall beth sy'n rhaid i chi ei wneud.